



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Pecyn Partner Siarad gyda fi



Mae ymennydd plant yn anhygoel. Maen nhw'n tyfu o hyd ac yn gwneud cysylltiadau newydd. Wrth chwarae, gwrando a siarad gydag nhw, rydych chi'n goleuo eu meddyliau ac yn helpu eu hymennydd i dyfu.



Beth yw Siarad Gyda Fi?

'Siarad gyda fi' yw ymgyrch Llywodraeth Cymru i annog rhieni i chwarae, gwrando a siarad gyda'u plant yn y blynyddoedd cynnar (rhwng 0 a 5 mlwydd oed). Rydym eisiau i rieni siarad gyda'u plant bob dydd i oleuo eu meddyliau, helpu eu hymennydd i dyfu, a rhoi'r dechrau gorau posibl iddyn nhw mewn bywyd. Ar ein [gwefan](#) a'n tudalen [Facebook](#) ceir amrywiaeth o offer, tips ac adnoddau defnyddiol a hygyrch, dan arweiniad arbenigwyr, i gynorthwyo rhieni ar daith dysgu iaith eu plentyn.

Amcanion yr ymgyrch

Amcanion ein hymgyrch yw:

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd chwarae, gwrando a siarad gyda babanod a phlant ifanc.
- Addysgu teuluoedd i wella sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu plentyn a gwybod pryd i ofyn am gymorth proffesiynol os oes pryderon am ddatblygiad.



Mae angen eich cymorth arnom

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ymgyrch wedi bod yn fyw ar y teledu (ITV, Sky ac S4C), hysbysebion radio, cyfryngau allan o'r cartref, ac ymgyrch talu fesul clic ddigidol wedi ei thargedu at rieni, gofalwyr, neiniau a theidiau, ac aelodau eraill o'r teulu. Mae angen eich cymorth arnom i rhannu'r ymgyrch ledled Cymru.

Dyma rai ffyrdd y gallwch gefnogi'r ymgyrch:

- Rhannu ein hadnoddau gyda rhieni a gofalwyr plant rhwng 0 a 5 oed.
- Rhannu ein hysbysebion teledu a'n negeseuon cyfryngau cymdeithasol ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun – gan dagio ein Sianel Facebook **@Siarad gyda fi – Talk with me** a defnyddio ein hashnod **#SiaradGydaFi**.
- Ein tagio ni yn eich negeseuon am ddatblygiad iaith a lleferydd plant – rydym wrth ein boddau'n gweld eich cynnwys!



Llyfrynnau, posterï a chodau QR

Mae'r llyfryn a'r poster 'Siarad gyda fi' wedi'u cynhyrchu gyda rhieni, Therapyddion Lleferydd ac Iaith a'r Tîm Iechyd Cyhoeddus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Gallwch ddefnyddio'r rhain gyda theuluoedd i'w helpu i gynorthwyo eu plentyn i siarad.

Darperir y llyfryn gan Lywodraeth Cymru fel adnodd digidol ac felly ni fydd yn cael ei argraffu a'i ddosbarthu'n ganolog. Os oes angen copïau caled yn lleol, bydd angen trefnu ac ariannu hyn o fewn eich Awdurdod Lleol.

Cynlluniwyd y llyfryn i'w ddefnyddio'n gyffredinol (yn hytrach nag o fewn Dechrau'n Deg yn unig). Felly ni fyddwn yn cyhoeddi canllawiau ffurfiol ar pryd a sut i rannu'r llyfryn â theuluoedd – bwriedir iddo fod yn adnodd sy'n gallu cael ei ddefnyddio ym mha ffordd bynnag sy'n gweithio orau i chi yn eich ardal. Byddem wrth ein boddau yn clywed sut mae'n cael ei ddefnyddio a sut mae teuluoedd yn ymateb.

Rydym wedi cyfieithu'r llyfryn a'r poster i nifer fach o ieithoedd lleiafrifol sydd ar gael yn y gronfa asedau.




Pecyn Rhieni a Gofalwyr

Mae ein 'Pecyn Rhieni a Gofalwyr' yn rhoi gwybodaeth, tips a chynghor arbenigol i rieni a gofalwyr i helpu eu plant bach ar eu taith siarad.

Mae'r pecyn wedi ei brofi gyda rhieni ac ymarferwyr ac mae'n cynnwys llawer o adnoddau cyffrous, er enghraifft: '10 tip i fy helpu i siarad', gwybodaeth am gerrig milltir siarad a llwyth o gemau cyffrous i rieni eu chwarae gartref i helpu eu plentyn bach i siarad.

Mae'r llyfryn ar gael i'w lawrlwytho [yma](#).



Postiadau cyfryngau cymdeithasol

Rydym wedi datblygu cyfres o bostiadau cyfryngau cymdeithasol sydd ar gael i chi eu rhannu gyda rhieni a gofalwyr yn eich rhwydweithiau. Os ydych chi'n rhannu negeseuon a phostiadau, a fyddech cystal â'n tagio ni a chynnwys ein hashnod #SiaradGydaFi. Hefyd, os nad ydych yn gwneud hynny'n barod, a gawn ni ofyn i chi ein dilyn ni ar Facebook yn:

@Siarad gyda fi – Talk with me.

Mae'r holl gopi cyfryngau cymdeithasol a awgrymir a ddarperir yn y pecyn hwn o fewn y cyfrif nodau uchaf ar gyfer pob sianel gymdeithasol, gan gynnwys Twitter. Mae asedau creadigol i gyd-fynd â'r postiadau cyfryngau cymdeithasol ar gael i'w lawrlwytho.



Hysbysebion teledu a phostiadau am y llyfryn

Postiad 1: Hysbyseb TVC (10 eiliad)



Capsiwn: Siarad a chwarae gyda dy blentyn gymaint â phosibl bob dydd. Gall treulio amser gydag nhw helpu ei ymennydd i dyfu. Gall y pethau bach rwyf ti'n eu gwneud gyda nhw wneud gwahaniaeth mawr, nawr ac yn y dyfodol. I gael tips i gael dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi

Postiad 2: Hysbyseb deledu (30 eiliad)



Capsiwn: Mae ymennydd plant yn anhygoel. Maen nhw'n tyfu o hyd ac yn gwneud cysylltiadau newydd. Wrth chwarae, gwrando a siarad gyda nhw, rwyf ti'n goleuo eu meddyliau ac yn helpu i dyfu'r ymennydd. I gael tips i gael dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi

Postiad 3: Siarad gyda fi: Llyfryn 10 tip gwych



Capsiwn: Gall siarad gyda dy blentyn yn y blynyddoedd cynnar helpu ei ymennydd i dyfu a'i helpu i ddysgu geiriau newydd. Mae'r tîm yn #SiaradGydaFi wedi datblygu deg tip gwych i gynorthwyo dy blentyn gyda'i siarad. Clicia'r ddolen i gael gwybod mwy: llyw.cymru/siaradgydafi

Asedau goleuo fy meddwl

Postiad carwsél dwyieithog

Capsiwn Cymraeg: Pan wyt ti'n siarad gyda dy blentyn, ti'n goleuo ei feddwl ac yn helpu ei ymennydd i dyfu! I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi

Capsiwn Saesneg: When you talk with your child, you light up their mind and help their brain to grow! For tips to get your little one talking, visit: gov.wales/talkwithme



Asedau goleuo fy meddwl

Animeiddiadau 10 eiliad

Gallwch chi ddefnyddio'r copi hwn gydag unrhyw un o'r animeiddiadau isod!

Capsiwn Cymraeg: Mae pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd. Dilyn **@Siarad gyda fi – Talk with me** ar Facebook neu llyw.cymru/siaradgydafi i gael tips da a chyngor arbenigol i helpu dy blentyn i siarad.

Capsiwn Saesneg: Every child deserves the best start in life. Follow **@Siarad gyda fi – Talk with me** on Facebook or visit gov.wales/talkwithme for fun tips and expert advice to help your child with their talking.



Animeiddiad 1



Animeiddiad 2



Animeiddiad 3

Asedau goleuo fy meddwl

Lluniau llonydd dwyieithog

Gallwch ddefnyddio unrhyw un o'r delweddau hyn gyda'r copi isod

Capsiwn Cymraeg: Bydd siarad gyda dy blentyn wyneb yn wyneb, canu caneuon gyda symudiadau, a darllen straeon gyda'ch gilydd yn ei helpu i ddysgu geiriau newydd. I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi

Capsiwn Saesneg: Talking with your child face to face, singing songs with actions, and reading stories together will help them learn new words. For tips to get your little one talking, visit: gov.wales/talkwithme



10 tip i helpu fi i ddysgu siarad

Tip 1



Capsiwn Cymraeg: Gall siarad gyda dy blentyn hyd yn oed cyn ei eni ei helpu i ddatblygu sgiliau iaith hanfodol y bydd ei angen yn nes ymlaen mewn bywyd. I gael tips i helpu dy blentyn i siarad:

llyw.cymru/siaradgydafi
#SiaradGydaFi

Tip 2



Capsiwn Cymraeg: Gall dy blentyn ddysgu unrhyw iaith o'i eni! Mae siarad yn dy iaith orau neu dy iaith gyntaf yn ei helpu i deimlo cysylltiad â ti a dysgu am dy ddiwylliant. I gael tips i helpu dy blentyn i siarad:

llyw.cymru/siaradgydafi
#SiaradGydaFi


Tip 3



Capsiwn Cymraeg: Oeddet ti'n gwybod bod dy fabi yn gallu dweud wrthyti sut mae'n teimlo drwy gyswllt llygaid, gwenu, chwerthin a llefain, cyn gallu siarad? I gael tips i helpu dy blentyn i siarad:

llyw.cymru/siaradgydafi
#SiaradGydaFi

Tip 4



Capsiwn Cymraeg: Mae dy blentyn yn dwlu ar dy glywed yn canu, ac wrth ei fodd yn ymuno yn y symudiadau a'r geiriau hefyd! Paid â phoeni os nad wyt yn hoffi dy lais canu – does dim ots! I gael tips i helpu dy blentyn i siarad:

llyw.cymru/siaradgydafi
#SiaradGydaFi

Tip 5



Capsiwn Cymraeg: Cofia bod amser bwyd, amser cewyn ac amser bath i gyd yn adegau perffaith i siarad a chwarae gyda dy blentyn. I gael tips i helpu dy blentyn i siarad:

llyw.cymru/siaradgydafi
#SiaradGydaFi

10 tip i helpu fi i ddysgu siarad

Tip 6



Capsiwn Cymraeg: Oeddet ti'n gwybod bod siarad am y lluniau mewn llyfrau yn helpu dy blentyn i ddysgu geiriau newydd? Rho gynnig ar ddefnyddio wynebâu a lleisiau doniol i ddweud y stori! I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi #SiaradGydaFi

Tip 7



Capsiwn Cymraeg: Oeddet ti'n gwybod bod ailadrodd yr un geiriau dro ar ôl tro yn helpu dy blentyn bach i gofio geiriau newydd? I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi #SiaradGydaFi

Tip 8



Capsiwn Cymraeg: Cofia na all dy blentyn wrando ar ddau beth ar yr un pryd, felly mae'n haws iddo ddysgu pan fo'r teledu a sgriniau wedi'u diffodd. I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi #SiaradGydaFi

Tip 9



Capsiwn Cymraeg: Pan fydd dy blentyn yn dysgu siarad, cofia ei ganmol, hyd yn oed os yw'n swnio fel ei bod yn parablu! I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi #SiaradGydaFi

Tip 10



Capsiwn Cymraeg: Mae dy blentyn wrth ei fodd yn edrych ar wynebâu a gwrando ar bobl yn siarad. I gael tips i helpu dy blentyn i siarad: llyw.cymru/siaradgydafi #SiaradGydaFi

Camau siarad: fideos

Rydym wedi ffilmio cyfres o fideos gydag ymarferwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn edrych ar y gwahanol gamau yn natblygiad plant.

Gallwch ddefnyddio'r rhain ar y cyfryngau cymdeithasol i hysbysu eich gwaith eich hun gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r fideos ar gael i'w lawrlwytho **yma**.



Camau siarad: fideos

Iona — CYM 1



Teitl y fideo: Datblygiad cyn geni.

Iona — CYM 2




Teitl y fideo: Dechrau taith dysgu iaith plentyn.

Iona — CYM 3



Teitl y fideo: Ar ôl darganfod iaith.

Iona — CYM 4



Teitl y fideo: Copïo geiriau y maent yn eu clywed.

Iona — CYM 5



Teitl y fideo: Ehangu ystod ac amrywiaeth y geiriau.

Iona — CYM 6



Teitl y fideo: Deall cyfarwyddiadau cymhleth.

Iona — CYM 7



Teitl y fideo: Siarad gyda eich Ymwelydd Iechyd.



Ffilmiau Hyb

Rydyn ni wedi datblygu pedair ffilm ar gyfer rhieni plant 0-2 oed, rhieni plant 3-5 oed, rhieni sy'n disgwyl babi, a neiniau a theidiau. Maen nhw ar gael i'w lawrlwytho a'u defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.



Ffilmiau Hyb

Siarad gyda fi: wyt ti'n disgwyl babi?



Pennawd Cymraeg: Gall dy fabi glywed synau ac adnabod dy lais o 24 wythnos ymlaen! Rho gynnig ar ganu 'Seren Fechan yn y Nen' i'r bwmp – bydd hyn yn ei helpu i adnabod dy lais ac yn cryfhau eich cysylltiad ar ôl ei eni. Mae tips ar gyfer dechrau taith siarad dy blentyn ar gael yn www.llyw.cymru/siaradgydafi

Siarad gyda fi: siarad gyda dy fabi cyn iddo allu siarad



Pennawd Cymraeg: Pan rwyd ti'n siarad a chwarae gyda dy blentyn ac yn gwrando hefyd, hyd yn oed cyn y gall siarad, rwyd ti'n helpu ei ymennydd i dyfu a gwneud cysylltiadau newydd. Bydd y pethau bach rwyd ti'n eu gwneud yn gwneud byd o wahaniaeth, nawr ac yn y dyfodol. Mae tips i gael dy blentyn i siarad ar gael yn www.llyw.cymru/siaradgydafi

Siarad gyda fi: helpu dy blentyn i ddysgu rhagor o eiriau



Pennawd Cymraeg: Pan rwyd ti'n siarad a chwarae gyda dy blentyn ac yn gwrando hefyd, rwyd ti'n helpu ei ymennydd i dyfu a gwneud cysylltiadau newydd. Bydd y pethau bach rwyd ti'n eu gwneud yn gwneud byd o wahaniaeth, nawr ac yn y dyfodol. Mae tips i gael dy blentyn i siarad ar gael yn www.llyw.cymru/siaradgydafi

Siarad gyda fi: helpu plant yn dy deulu i siarad



Pennawd Cymraeg: Pan rwyd ti'n siarad â phlant yn dy deulu, yn gwrando arnyn nhw ac yn chwarae gyda nhw, rwyd ti'n helpu eu hymennydd i dyfu a gwneud cysylltiadau newydd. Bydd y pethau bach rwyd ti'n eu gwneud gyda nhw yn gwneud byd o wahaniaeth, nawr ac yn y dyfodol. Mae tips i gael plant yn dy deulu i siarad ar gael yn www.llyw.cymru/siaradgydafi

Adnoddau ymarferwyr

Oeddech chi'n gwybod
bod gennym dudalen we bwrpasol i
gynorthwyo ymarferwyr?
Rydym wedi dod ag amrywiaeth o
awgrymiadau a chynghor at ei gilydd i helpu
rhieni i ddeall pwysigrwydd eu rôl wrth helpu
eu plant i siarad. Byddem wrth ein boddau
pe bydddech yn eu rhannu gyda'r teuluoedd
yr ydych chi'n gweithio gyda nhw. Dilynwch y
ddolen hon i gael gwybod mwy: [llyw.cymru/
siarad-gyda-fi-canllawiau-ymarferwyr](http://llyw.cymru/siarad-gyda-fi-canllawiau-ymarferwyr)



Diolch!

Diolch am eich cymorth. Cofiwch ein dilyn ar Facebook @Siarad gyda fi – Talk with me. Os oes angen unrhyw gefnogaeth bellach arnoch neu os oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer adnoddau eraill yr hoffech eu gweld, anfonwch e-bost at ein tîm yn siaradgydafi@llyw.cymru

